# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
# 7 GORFFENNAF 2022

Cofnodion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 7 Gorffennaf 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Ron Davies, Alasdair Ibbotson, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Jason Shallcross, Sam Swash a Linda Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Arnold Woolley

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Paul Johnson - Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Gwydn, Billy Mullin - Dirprwy Arweinydd (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, Prif Weithredwr, Prif Weithredwr (Llywodraethu) a Rheolwyr Cyllid Strategol

Y Cynghorydd Ian Roberts - Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden (ar gyfer cofnodion 6-10)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a thîm

## 6. DATGAN CYSYLLTIADAU

Dim.

## 7. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 9 Mehefin 2022, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Vicky Perfect a Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 8. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r rhaglen gwaith i'r dyfodol presennol a ddiwygiwyd i gynnwys ceisiadau'r Aelodau. Cadarnhaodd y bydd eitem ar ddatblygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 yn cael ei ystyried ym Medi a byddai sesiwn friffio Aelodau ar adrodd ar berfformiad yn cael ei drefnu.

Yn ôl cais y Cadeirydd, byddai eitemau ar y gylchred cynllunio ariannol a busnes a rheoli risg yn cael ei drefnu. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai'r cynllun darparu sy'n datblygu ar hyn o bryd yn cael ei rannu gydag Aelodau cyn Medi.

Hefyd awgrymodd y Cadeirydd eitem i archwilio buddion ariannol o roi contract allanol neu rannu rhai o wasanaethau'r Cyngor, a gofynnodd am ddiweddariad ar y lefel bresennol o ddyled sy'n weddill ar y pecynnau gofal a

ariennir ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd lleol.  Byddai'r ddwy eitem yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Ar y sail honno, cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Vicky Perfect a Bill Crease.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; a

(b) Bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 9. CYLCH GORCHWYL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu adroddiad ar y diwygiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgor er mwyn alinio â'r newidiadau i feysydd gwasanaeth portffolio.  Roedd y cynigion i gynnwys y Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, ynghyd ag Arlwyo a Glanhau NEWydd, o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, gan nosi y byddai hyn yn darparu trosolwg i'r Aelodau o'r Rhaglen Asedau Cymunedol gyflawn.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Ron Davies a Jason Shallcross.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'w gylch gorchwyl fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

## 10. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2022/23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Strategol (Strategaeth ac Yswiriant) adroddiad ar y cam cyntaf o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gofyniad y gyllideb ar gyfer 2023/24.  Mae'r adroddiad yn nodi'r rhagolygon diwygiedig cyn i bwysau o ran cost a chynigion effeithlonrwydd gael eu hadolygu gan y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a gweithdai Aelodau yn ystod yr Hydref.

Roedd y rhagolwg diwygiedig yn dangos isafswm gofyniad cyllidebol o £16.503 miliwn ychwanegol o adnoddau refeniw ar gyfer 2023/24, a oedd yn eithrio effaith canlyniad yr ymarfer modelu tâl i'w gyflawni yn 2022/23.  Er bod ffigyrau ariannu dangosol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 wedi cael eu darparu fel rhan o Setliad Llywodraeth Leol 2022/23, roedd y rhain ar lefel llawer is na'r ddwy flynedd flaenorol a byddai'n cynyddu'r symiau i'w diwallu gan ffynonellau eraill.  Roedd heriau sylweddol yn y rhagolygon economaidd, gyda'r amcangyfrifon chwyddiant ar ynni a thanwydd wedi'u hamlygu fel risgiau allweddol sy'n debygol o gynyddu'r rhagolwg.  Roedd pwysau eraill o ran cost mewn perthynas â newid mewn galw gwasanaeth, yn bennaf o fewn Addysg ac Ieuenctid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd risg pellach yn parhau o ran canlyniad y dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer 2022/23 lle byddai unrhyw gynnydd uwchben yr ymgodiad o 3.5% a gyllidebwyd, yn golygu defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn, a byddai hefyd yn ychwanegu pwysau ychwanegol i'r rhagolwg ar gyfer 2023/24.

Cafodd y pwysau o ran cost eu categoreiddio yn adran 1.04 yr adroddiad a hysbyswyd yr Aelodau fod y ffigyrau yn debygol o newid dros yr Haf wrth i ragor o wybodaeth gael ei dderbyn ac wrth i adolygiadau barhau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn ar gyflwyno'r rhagolwg cyntaf ar gyfer y gofyniad cyllidebol ar gyfer 2023/24. Dywedodd fod ansefydlogrwydd y sefyllfa economaidd bresennol yn creu fwy o heriau o ran cynllunio ariannol a bod swyddogion yn parhau i weithio drwy'r manylion i fireinio'r rhagolygon.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Johnson am y risgiau sylweddol ar effaith y cynnydd mewn chwyddiant ac ynni, lle nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth. Wrth amlygu'r angen i ystyried effaith y penderfyniadau ar y blynyddoedd i ddod, ailadroddodd egwyddorion craidd o wneud penderfyniadau gan sicrhau fod y Cyngor yn parhau i fodloni ei ddyletswyddau statudol a chynnal ei safonau ansawdd.

Fel un o'r prif risgiau, cyfeiriodd y Cynghorydd Ian Roberts at yr effeithiau heb ei ariannu posibl o ddyfarniadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer athrawon a staff nad ydynt yn athrawon yn 2023/24. Siaradodd am yr heriau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys lleoliadau tu allan i'r sir lle'r oedd y Cyngor yn gweithio i adsefydlu ei hun fel darparwr gofal uniongyrchol ac archwilio dewisiadau rhanbarthol.

Wrth godi nifer o gwestiynau, dywedodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson nad oedd yr holl bwysau yn cynnwys ystod o amrywiadau. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol, wrth i waith barhau, byddai diweddariad ar yr holl amrywiadau yn cael ei rannu yn y gweithdy ym mis Medi. Wrth ateb cwestiwn o ran swydd newydd yn yr Adran Gorfodi Gwasanaethau Stryd a ddangoswyd yn yr atodiad yn adroddiad y Cabinet, cadarnhawyd fod hyn yn sgil swydd newydd a gymeradwywyd fel rhan o'r gyllideb yn 2022/23 a oedd â chyfyngiad amser.

Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Ibbotson am ddiffyg pwysau ariannol tymor canolig a ragwelwyd ar leihad carbon, eglurodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn natblygiad Rhaglen Gyfalaf lle'r oedd gwaith yn mynd rhagddo, yn ogystal â'r Cynllun Rheoli Asedau a oedd i fod i gael ei ystyried ym Medi.

Wrth grynhoi'r pwysau, ystyriodd y Cadeirydd y pwysau penderfyniad cenedlaethol, gofynion cyllido cenedlaethol a'r penderfyniadau strategol fel y risgiau allweddol gan eu bod yn gyffredinol tu allan i reolaeth y Cyngor. Awgrymodd y dylid pwysleisio i Lywodraeth Cymru (LlC) na ddylid disgwyl i gynghorau gynyddu Treth y Cyngor i fynd i'r afael â'r pwysau o ran penderfyniadau cenedlaethol.

Pan ofynnwyd am broffwydoliaeth ar gyfer amrywiadau isel/canolig/uchel i'r rhagolwg, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd sicrwydd ar hyn o bryd yn sgil

ansefydlogrwydd ac y byddai canran bychan o gynnydd yn effeithio'n sylweddol ar sefyllfa'r gyllideb. Cytunodd y Rheolwr Cyllid Strategol a rhoddodd sicrwydd y byddai mwy o fanylion ar holl bwysau o ran cost yn cael ei ddarparu i'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Yn ôl cais y Cadeirydd, byddai'n darparu crynodeb o newidiadau i'r rhagolygon ers yr adroddiad i'r Cyngor Sir ym mis Chwefror.

Gofynnodd y Cadeirydd am y newidiadau i ddiwygiad gwasanaeth y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad, a chafodd wybod y byddai canlyniad yr adolygiad ar draws y portffolios yn cael ei rannu yng ngweithdy'r Aelodau ym Medi.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Jason Shallcross.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried adroddiad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24, bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes materion penodol i'w hadrodd yn ôl i'r Cabinet pan fydd yn ystyried yr adroddiad ar 12 Gorffennaf.

## 11. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22 (ALLDRO) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2021/22 (ALLDRO)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol (Cyllid Corfforaethol) adroddiadau ar sefyllfa derfynol 2021/22 ar gyfer monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Monitro Cyllideb Refeniw

Ar Gronfa'r Cyngor, y sefyllfa ragweladwy ar ddiwedd y flwyddyn oedd arian dros ben gweithredol o £5.711 miliwn gan adlewyrchu symudiad ffafriol o £1.107 miliwn o fis 10 gan adael balans cronfa hapddigwyddiad ar ddiwedd y flwyddyn o £7.098 miliwn. Dangoswyd amrywiadau o fis 10 yn yr adroddiad gan gynnwys manylion o symudiadau sylweddol. Roedd yr adroddiad yn amlygu effaith sylweddol Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru (LIC) a ffrydiau cyllido colli incwm ar sefyllfa derfynol cyffredinol, yn ogystal â grantiau untro LIC i feysydd gwasanaeth cymwys. Roedd trosolwg o'r risgiau o fewn y flwyddyn yn cynnwys symudiad cadarnhaol ar gasgliad Treth y Cyngor ac effaith cyllid ychwanegol LIC ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Adroddwyd ar sefyllfa well ar yr arbedion effeithlonrwydd cynlluniedig a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn 2021/22 a chronfeydd wrth gefn brys wedi'u neilltuo yn dilyn cynnydd yn setliad llywodraeth leol ar gyfer 2021/22. Roedd y wybodaeth ychwanegol yn yr adroddiad yn egluro newid safle o ran arian dros ben gweithredol a chronfeydd hapddigwyddiad dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yn y Cyfrif Refeniw Tai, byddai gorwariant arfaethedig o £1.404 miliwn yn gadael balans terfynol heb ei glustnodi o £3.616 miliwn, a oedd yn llawer uwch na'r canllawiau ar wariant a argymhellir.

Yn ôl cais y Cadeirydd, cytunodd y swyddogion i ddarparu crynodeb o'r sefyllfa ar Fis 10 ar gyfer dibenion cymharu.

Rhaglen Gyfalaf

Y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 oedd £71.442 miliwn, gan ystyried bod yr holl symiau a ddygwyd ymlaen ac arbedion yn trosglwyddo'n ôl i'r rhaglen. Roedd newidiadau yn ystod y chwarter olaf yn bennaf oherwydd cyflwyno ffrydiau ariannu grant ac ailbroffilio'r gyllideb. Cyfanswm y gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn oedd £67.907 miliwn a oedd yn 95.05% o'r gyllideb, gan adael £3.535 miliwn o danwariant a argymhellwyd y dylid ei gario ymlaen ar gyfer cwblhau cynlluniau yn 2022/23. Byddai dyraniadau ychwanegol a nodwyd yn y chwarter terfynol yn cael eu hariannu o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol a ddyfarnwyd gan LIC ym mis Chwefror 2022. Nodwyd cyfanswm arbedion o £0.370 miliwn ac roedd y sefyllfa derfynol wedi arwain at sefyllfa ariannol ddiwygiedig o arian dros ben o £2.068 miliwn, cyn ystyried y derbyniadau cyfalaf ychwanegol a/neu ffrydiau cyllido eraill.

Cafodd yr argymhelliad cyntaf ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Vicky Perfect a Bill Crease. Cafodd yr ail argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Ron Davies a Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 (y sefyllfa derfynol) fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet; a

(b) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2021/22 (sefyllfa derfynol) fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

## 12. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (DROS DRO)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol (Cyllid Corfforaethol) adroddiad ar y sefyllfa monitro cyllideb yn ystod y flwyddyn dros dro 2022/23 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd hwn yn adroddiad eithrio ar amrywiadau sylweddol posibl a allai effeithio ar y sefyllfa ariannol yn 2022/23 a chynnydd o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn erbyn y targedau a osodwyd am y flwyddyn.

Yn seiliedig ar y lefel uchel o ragdybiaethau yn yr adroddiad, roedd yr amrywiadau posibl yn y gyllideb a ddynodwyd fesul Portffolio ar y cam hwn gyfwerth ag isafswm gofyniad gwariant net ychwanegol o tua £0.300 miliwn. Fel y nodwyd yn yr eitem flaenorol, roedd y £2.066 miliwn oedd yn weddill o'r gronfa wedi'i glustnodi i argyfwng Covid-19, yn ogystal â'r £3.250 miliwn a ddarparwyd ar gyfer y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23, wedi codi'r cyfanswm i £5.316 miliwn. Roedd yr hawliadau mewn perthynas â Covid ar draws y portffolios yn cael eu hadolygu er mwyn penderfynu cymhwysedd ar gyfer y cronfeydd wrth gefn hynny, o ystyried fod Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru (LlC) wedi dod i ben. Roedd gwaith yn parhau i adolygu'r cynnydd ar risgiau sy'n codi ac arbedion effeithlonrwydd heb eu cyflawni a all effeithio ar gyllideb 2023/24. Roedd y trosolwg o'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn cynnwys nifer o bwysau o ran cost mewn Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Stryd a Chludiant gyda'r cynnydd mewn prisiau tanwydd yn codi fel pwysau corfforaethol. Mae nifer o

risgiau agored wedi cael eu canfod ar y cam hwn a byddent yn destun monitro parhaus.

Gofynnodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson am y posibilrwydd i LlC ymestyn trefniadau cyllido Covid ac os fyddai'r £3.250 miliwn ychwanegol i gronfeydd wrth gefn brys y Cyngor yn dal i fod yn angenrheidiol. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol, oni bai am y cyllid ychwanegol ar y cynllun ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol Covid-19, nid oedd unrhyw fynegiad gan LlC y byddai cyllid blaenorol mewn cysylltiad â Covid yn parhau, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i gasglu ac adolygu hawliadau mewnol. Pan ofynnwyd am gronfeydd wrth gefn brys y Cyngor, roedd ansicrwydd ar y cam hwn o ran pa lefel a fyddai'n ofynnol.

Mewn ymateb i gwestiwn ar drefniadau ariannol ar gyfer Parc Adfer, darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) drosolwg cryno o'r model mewn cysylltiad â'r contract a gofynnodd i geisiadau am fanylion penodol gael eu gwneud ar wahân. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Ibbotson ofyn y cwestiwn drwy'r Hwylusydd gyda'r ymateb i'w rannu gyda'r Pwyllgor llawn.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad, talodd y Cynghorydd Paul Johnson deyrnged i broses fonitro cyllideb gadarn a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Cafodd ei sylwadau ei gefnogi gan y Cadeirydd a geisiodd eglurhad ar yr amrywiant o £0.275 miliwn ar y Gwasanaethau Rheoli ac Adnoddau. Cytunodd y Rheolwr Cyllid Strategol i rannu ymateb mwy manwl.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Bill Crease.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw (dros dro) 2022/23, bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno eu codi gyda'r Cabinet.

## 13. <u>CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD AR Y STRATEGAETH DDIGIDOL</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddigidol 2021-26 lle'r oedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi dangos cefnogaeth ar gyfer nodau strategol a dyheadau'r Cyngor. Cafodd yr ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad hefyd ei atodi ar gyfer ystyriaeth.

Rhoddwyd trosolwg o'r pedwar prif faes o ganolbwynt o'r 179 o ymatebion fel y manylwyd yn yr adroddiad a'u hadlewyrchu yn y Strategaeth ddiwygiedig. Byddai geiriad ychwanegol hefyd yn darparu eglurder ar y cyfrifoldebau mewn perthynas â gwasanaethau digidol mewn ysgolion. Byddai datblygu cynllun gweithredu, gan gynnwys costau prosiect, hefyd yn cynorthwyo gyda chynllunio ariannol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bill Crease, dywedodd y Prif Swyddog er bod mwyafrif gwefan y Cyngor yn hygyrch ar ddyfais symudol, roedd gwaith yn parhau i drosi dogfennau PDF i fformat mwy priodol.

Mewn ymateb i ymholiad, cafodd y Cynghorydd Sam Swash wybod fod yr ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi'n fewnol yn ogystal ag allanol, gan fod mwyafrif y gweithlu yn breswylwyr y Fflint.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Allan Marshall, bydd y Prif Swyddog yn gofyn i Niall Waller ddarparu'r manylion cyswllt perthnasol i'r Cynghorydd Allan Marshall mewn perthynas â chynyddu cyflymderau band eang cymunedol. Hefyd gofynnodd y Cadeirydd bod y manylion cyswllt perthnasol o fewn Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael eu rhannu.

Ar ôl cwestiynau gan y Cadeirydd, cadarnhawyd fod ymgynghoriad wedi cael ei gynnal cyn gweithredu'r meddalwedd cynllunio newydd ac y byddai costau prosiect yn ffurfio rhan o'r cynllun adnoddau ar gyfer y Strategaeth Ddigidol gyflawn i gysylltu â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Vicky Perfect ac Allan Marshall.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Croesawu canlyniadau'r ymgynghoriad, a bod y Pwyllgor yn credu bod yr ymateb priodol yn cael ei gymryd i'r materion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad; a

(b) Bod y Strategaeth Ddigidol ddiwygiedig ar gyfer 2021-2026 yn cael ei gymeradwyo gydag addasiadau ychwanegol a awgrymwyd yn yr adroddiad hwn.

## 14. MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad monitro i adolygu'r cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2021/22. Ar y cyfan roedd hwn yn adroddiad cadarnhaol o ystyried yr heriau o'r sefyllfa argyfyngus, gyda 73% o'r dangosyddion perfformiad perthnasol i'r Pwyllgor wedi bodloni neu ragori eu targedau (gwyrdd) a dim yn dangos diffyg perfformiad yn erbyn y targedau (coch).

Wrth gyfeirio at y dangosyddion perfformiad coch tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, holodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson am gynnydd tai cymdeithasol. Ar y camau gweithredu'r Sector Rhentu Preifat, awgrymodd y dylai oedi mewn recriwtio i'r tîm i gefnogi tenantiaid y sector preifat, fod yn statws coch ac y gallai'r dewis i gynnwys cyrff cynrychioli tenantiaid neu'r trydydd sector gael ei archwilio. O dan yr Amgylchedd, dywedodd fod y swm o ddangosyddion perfformiad coch o'i gymharu â gwyrdd yn ymddangos yn gamarweiniol gan fod tystiolaeth o gynnydd da.

Awgrymodd y Cadeirydd fod yr 11 dangosydd perfformiad coch o dan gylch gwaith pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn cael eu cyfeirio'n briodol.

Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Ibbotson, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau,

Tai ac Asedau wedi ystyried y dangosyddion perfformiad tai yn ddiweddar a chytunodd y byddai'n darparu diweddariad ar wahân ar y sefyllfa bresennol o ran recriwtio i'r tîm sector preifat.

Awgrymodd y Cadeirydd adolygiad o dargedau ar rai mesurau er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ac yn gyflawnadwy, er enghraifft, cyfartaledd diwrnodau i brosesu newid mewn amgylchiadau ar gyfer budd-daliadau tai a gostyngiad yn Nhreth y Cyngor (Tlodi Incwm) ac ystadegau defnydd o adnoddau ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc (Tlodi Plant). Holodd am ganlyniad y nifer a gofrestrodd ar y Cynllun Cefnogwyr Digidol (Tlodi Digidol) a chyflwyniad y data siart ar fesurau perfformiad ar gyfer Tai Fforddiadwy a Hygyrch. Ar y camau gweithredu Adfywio Canol Trefi, dywedodd ei bod yn bwysig fod dyluniad dref yn ffurfio rhan o wella amgylchedd canol trefi.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ron Davies a Jason Shallcross.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawniadau'r blaenoriaethau o fewn Cynllun y Cyngor 2021/22.

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2021/22; a

(c) Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

## 15. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am, a daeth i ben am 12.15pm)

……………………………
**Y Cadeirydd**